Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Defnydd o Iaith gan Weithwyr Proffesiynol mewn Perthynas â Phlant a Phobl Ifanc sydd Mewn Perygl o Gael eu Camfanteisio



Cadarnhawyd gan y Bwrdd
Medi 2022

Grŵp Protocolau a Gweithdrefnau

Dyddiad Adolygu
Medi 2025

# CYFLWYNIAD

## YNGHYLCH IAITH BRIODOL MEWN PERTHYNAS Â CHAMFANTEISIO AR BLANT, YN RHYWIOL A/NEU DROSEDDOL

Mae’n hollbwysig defnyddio terminoleg briodol wrth drafod unigolion sydd wedi cael eu camfanteisio arnyn nhw neu sydd mewn perygl o gael eu camfanteisio arnyn nhw. Mae'n rhaid osgoi iaith sy'n awgrymu bod y person ar fai mewn unrhyw fodd, neu'n gyfrifol am y troseddau sydd wedi digwydd neu a all ddigwydd iddo. Dylai iaith adlewyrchu presenoldeb gorfodaeth a’r diffyg rheolaeth sydd gan bobl mewn sefyllfaoedd o gam-drin neu gamfanteisio, ac mae'n rhaid i'r iaith gydnabod difrifoldeb yr effaith mae camfanteisio yn ei chael ar y person. Gall iaith sy'n beio dioddefwyr atgyfnerthu negeseuon gan gyflawnwyr ynghylch cywilydd ac euogrwydd. Gall hyn, yn ei dro, atal y person rhag datgelu'r gamdriniaeth oherwydd ei fod yn ofni cael ei feio gan weithwyr proffesiynol. Pan mae iaith sy'n beio dioddefwyr yn cael ei defnyddio ymhlith gweithwyr proffesiynol, mae perygl o normaleiddio a bychanu profiad y person, gan arwain at ddiffyg ymateb priodol.

## SUT I DDEFNYDDIO'R DDOGFEN HON

Gall gweithwyr proffesiynol ddefnyddio’r ddogfen hon wrth drafod camfanteisio ar unigolion, gan gynnwys wrth uwchgyfeirio gwybodaeth a darparu hyfforddiant. Mae modd darllen y ddogfen ar ddechrau cyfarfodydd strategaeth, cyfarfodydd amlasiantaeth, neu leoliadau eraill lle gallai gweithwyr proffesiynol fod yn trafod unigolion sydd mewn perygl o gael eu camfanteisio arnyn nhw. Mae modd defnyddio’r ddogfen hon hefyd fel canllaw i gynorthwyo defnydd priodol o iaith wrth wneud cofnod ysgrifenedig.

## CANLLAWIAU AR GYFER DEFNYDDIO IAITH BRIODOL

Mae’r tabl canlynol yn amlinellu termau na ddylid eu defnyddio wrth drafod neu gofnodi materion camfanteisio ac mae’n cynnwys rhestr o ymadroddion amgen priodol. Mae hefyd yn bwysig defnyddio Saesneg clir, osgoi defnyddio gormod o jargon a bod yn sensitif i anghenion gwahanol ddiwylliannau cymunedol. Bydd angen defnyddio barn broffesiynol wrth ystyried sut i gofnodi gwybodaeth ar gyfer yr unigolyn.

| Ymatebion i Niweidio Plant / Pobl Ifanc yn Unigol | |
|---|---|
| **Ymatebion wedi'u geirio'n wael** | **Ymatebion wedi'u geirio'n briodol** |
| **Rhoi eu hunain mewn perygl**<br><br>Mae hyn yn awgrymu bod y plentyn / unigolyn ifanc yn gyfrifol am y peryglon yr oedd y cyflawnwr yn eu peri iddynt a'u bod yn gallu gwneud dewisiadau rhydd a gwybodus. | • Mae'n bosibl bod y plentyn / unigolyn ifanc wedi profi achos o feithrin perthynas amhriodol<br>• Mae'r plentyn / unigolyn ifanc yn fwy agored i brofi camdriniaeth a / neu gamfanteisio<br>• Mae'n bosibl y bydd cyflawnwr yn cymryd mantais o ddiamddiffynnedd y plentyn / unigolyn ifanc<br>• Nid yw'r plentyn / unigolyn ifanc mewn amgylchedd amddiffynnol.<br>• Mae'r sefyllfa'n lleihau diogelwch y plentyn / unigolyn ifanc<br>• Mae'r lleoliad yn beryglus i blant / pobl ifanc.<br>• Gallai'r lleoliad / sefyllfa gynyddu'r cyfle i'w cam-drin.<br>• Nid yw'n glir p'un a yw'r plentyn / unigolyn ifanc yn cael eu gorfodi i fynd ar goll.<br>• Mae pryderon bod y plentyn / unigolyn ifanc yn profi camdriniaeth / camfanteisio rhywiol.<br>• Nid yw'n glir pam bod y plentyn / unigolyn ifanc yn mynd i mewn i geir.<br>Mae pryderon bod anghydbwysedd grym sy'n gorfodi'r plentyn / unigolyn ifanc i ymddwyn fel hyn.<br>• Mae pryderon mewn perthynas â dylanwadau eraill ar y plentyn / unigolyn ifanc. |

| Ymatebion i Niweidio Plant / Pobl Ifanc yn Unigol | |
|---|---|
| **Ymatebion wedi'u geirio'n wael** | **Pobl Ifanc yn Unigol** |
| **Ddim yn cydweithredu gyda....** | • Nid oedd y plentyn / unigolyn ifanc yn teimlo'n ddigon diogel i ddatgelu.<br>• Mae'r plentyn / unigolyn ifanc yn ymddangos yn ofnus o oblygiadau negyddol unrhyw ddatgeliad.<br>• Mae'r plentyn / unigolyn ifanc yn profi camfanteisio troseddol / rhywiol a / neu mewn perthynas amhriodol ac felly nid ydynt yn gallu datgelu unrhyw beth.<br>• Mae'r plentyn / unigolyn ifanc yn profi camfanteisio troseddol / rhywiol a / neu mewn perthynas amhriodol ac felly nid ydynt yn gallu datgelu unrhyw beth.<br>• Mae'r plentyn / unigolyn ifanc yn ystyried bod y berthynas yn gydsyniol, fodd bynnag, ffurfiwyd y berthynas mewn cyd- destun o gamfanteisio. |
| **Ar goll....**<br><br>Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn diffinio unigolyn coll fel "unrhyw un nad oes modd cadarnhau ei leoliad".<br><br>Mae'r term 'ar goll' yn cael ei ddefnyddio'n eang ac nid yw ynddo'i hun yn broblematig, fodd bynnag, mae'n bwysig bod ymarferwyr yn ystyried y cyd-destun ar gyfer plentyn/person ifanc unigol (os yw'n hysbys).<br><br>Mae'r pwyntiau bwled yn y golofn ar y dde yn rhoi rhai awgrymiadau i ymarferwyr eu hystyried. | • Caiff diogelwch y plentyn / unigolyn ifanc ei gymell gan gyd-destun.<br>• Nid yw'r plentyn / unigolyn ifanc yn teimlo eu bod yn gallu aros yn eu lleoliad presennol.<br>• Mae'r plentyn / unigolyn ifanc yn cael eu cymell / gorfodi i adael.<br>• Mae'n bosibl y bydd y plentyn / unigolyn ifanc yn ystyried mai gadael yw'r opsiwn mwyaf diogel yn eu hamgylchiadau.<br>• Mae rhywun arall yn rheoli ymddygiad y plentyn / unigolyn ifanc.<br>Mae'r plentyn / unigolyn ifanc wedi dychwelyd i fan diogel |

| Ymatebion i Niweidio Plant / Pobl Ifanc yn Unigol | |
|---|---|
| **Ymatebion wedi'u geirio'n wael** | **Pobl Ifanc yn Unigol** |
| **Gweithgarwch rhywiol gyda...**<br><br>Mae hyn yn awgrymu bod gweithgarwch rhywiol cydsyniol wedi digwydd. Os yw'r achos wedi digwydd o fewn cyd-destun o gamdriniaeth neu gamfanteisio, nid yw'r term hwn yn briodol. | • Mae'r plentyn / unigolyn ifanc wedi cael eu cam-drin yn rhywiol.<br>• Mae'r plentyn / unigolyn ifanc wedi cael eu treisio.<br>• Mae adroddiadau o gamdriniaeth rywiol.<br>• Mae'r plentyn / unigolyn ifanc wedi disgrifio gweithgarwch rhywiol, fodd bynnag, mae pryderon bod y plentyn / unigolyn ifanc mewn perthynas amhriodol a / neu wedi cael eu gorfodi. |
| ***Yn cael rhyw ers [iau na 13 oed]***<br><br>Ni all plentyn sy'n iau na 13 oed gydsynio i ryw ac maent felly'n cael eu cam-drin.<br>Dylid adlewyrchu hyn yn yr iaith a ddefnyddir.<br>Wedi bod yn cysylltu â dynion/merched sy'n oedolion dros y ffôn neu'r we.<br><br>Mae hyn yn awgrymu bod y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn gyfrifol am gyfathrebu ac nid yw'n adlewyrchu'r cyd-destun o gamdriniaeth neu gamfanteisio. | • Mae'r plentyn / unigolyn ifanc wedi cael eu treisio.<br>• Mae'r plentyn / unigolyn ifanc wedi / o bosibl wedi profi camdriniaeth rywiol.<br>• Mae pryderon bod y plentyn / unigolyn ifanc wedi cael eu gorfodi, neu wedi profi camfanteisio neu gamdriniaeth rywiol.<br>• Mae'r plentyn / unigolyn ifanc yn profi camfanteisio rhywiol.<br>• Mae pryderon bod y plentyn / unigolyn ifanc wedi cael eu treisio.<br>• Mae cyflawnwyr yn cam-drin y plentyn / unigolyn ifanc yn rhywiol.<br>• Mae'r plentyn / unigolyn ifanc yn cael eu cam-drin yn rhywiol.<br>• Mae eraill yn defnyddio diamddiffynnedd y plentyn / unigolyn ifanc mewn perthynas â defnyddio cyffuriau i'w cam-drin nhw.<br>• Mae'r cyflawnwyr yn defnyddio dibyniaeth y plentyn / unigolyn ifanc ar gyffuriau i'w rheoli. |

| Ymatebion i Niweidio Plant / Pobl Ifanc yn Unigol | |
|---|---|
| **Ymatebion wedi'u geirio'n wael** | **Pobl Ifanc yn Unigol** |
| ***Mewn perthynas gyda...***<br><br>Mae hyn yn awgrymu bod y plentyn neu'r unigolyn ifanc mewn perthynas gydsyniol ac nid yw'n adlewyrchu'r cyd-destun o gamdriniaeth neu gamfanteisio. | • Mae'r unigolyn ifanc yn dweud eu bod mewn perthynas gydag unigolyn ac mae pryderon ynghylch oedran yr unigolyn hwnnw, yr anghydbwysedd o ran pŵer, camfanteisio a/neu droseddu.<br>• Mae'r cyflawnwr wedi / yn meithrin perthynas amhriodol, rheoli a chamfanteisio ar yr unigolyn ifanc. |
| ***Ynghlwm â Chamfanteisio ar Blant / Oedolion***<br><br>Mae hyn yn awgrymu bod elfen o ddewis mewn perthynas â'r gamdriniaeth y mae'r plentyn / unigolyn ifanc yn ei phrofi. Ni fyddai neb yn dweud bod plentyn pump oed ynghlwm â chamdriniaeth rywiol am yr un rhesymau. | • Mae'r plentyn / unigolyn ifanc yn agored i gamfanteisio rhywiol.<br>• Mae'r plentyn / unigolyn ifanc yn cael eu cam-drin yn rhywiol. |
| ***Anfoesol***<br><br>Mae hyn yn awgrymu bod gweithgarwch rhywiol cydsyniol wedi digwydd. Mae anfoesol yn derm beirniadol sy'n ystrydebu ac yn labelu pobl. Nid yw'n briodol mewn unrhyw gyd-destun wrth drafod plant a phobl ifanc, yn enwedig os yw'n codi o fewn cyd- destun o gamdriniaeth neu gamfanteisio. | • Mae'r plentyn / unigolyn ifanc yn agored i gamfanteisio rhywiol.<br>• Mae'r plentyn / unigolyn ifanc yn profi camfanteisio rhywiol.<br>Mae'r plentyn / unigolyn ifanc wedi / yn cael eu gorfodi i rannu lluniau o'u hunan ar-lein. |
| ***Cariad***<br><br>Mae hyn yn awgrymu bod y plentyn neu'r unigolyn ifanc mewn perthynas gydsyniol ac nid yw'n adlewyrchu'r cyd-destun o gamdriniaeth neu gamfanteisio. Mae plant / pobl ifanc wedi cael eu herio yn y llys gyda chofnodion ymarferwyr sy'n cyfeirio at y cyflawnwr fel cariad y plentyn / unigolyn ifanc. | • Mae'r unigolyn ifanc yn dweud eu bod mewn perthynas gydag unigolyn ac mae pryderon ynghylch oedran yr unigolyn hwnnw, yr anghydbwysedd o ran pŵer, camfanteisio a/neu droseddu.<br>• Mae'r cyflawnwr wedi / yn meithrin perthynas amhriodol, rheoli a chamfanteisio ar yr unigolyn ifanc. |

| Ymatebion i Niweidio Plant / Pobl Ifanc yn Unigol | |
|---|---|
| **Ymatebion wedi'u geirio'n wael** | **Pobl Ifanc yn Unigol** |
| **Rhedeg masnach cyffuriau – mae ef/hi'n rhedeg masnach cyffuriau**<br><br>Mae hyn yn awgrymu bod y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn gyfrifol am y camfanteisio y maent yn ei brofi a'u bod yn gallu gwneud dewis rhydd a gwybodus. Nid yw'n cydnabod y cyd-destun o gamdriniaeth neu gamfanteisio. | • Camfanteisio'n Droseddol ar Blant. Mae'r plentyn / unigolyn ifanc yn cael ei ecsbloetio'n droseddol<br>• Mae'r plentyn / unigolyn ifanc yn cael ei fasnachu mewn pobl ar gyfer pwrpas camfanteisio troseddol |
| **Recriwtio/ rhedeg/ gweithio**<br><br>Mae hyn yn awgrymu bod y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn gyfrifol am y camfanteisio y maent yn ei brofi a'u bod yn gallu gwneud dewis rhydd a gwybodus. Nid yw'n cydnabod y cyd-destun o gamdriniaeth neu gamfanteisio. | • Mae'r plentyn / unigolyn ifanc yn profi camfanteisio troseddol |
| **Mae ef/hi'n dewis y ffordd yma o fyw**<br><br>Mae hyn yn awgrymu bod y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn gyfrifol am y camfanteisio a'u bod yn gallu gwneud dewis rhydd a gwybodus. Nid yw'n cydnabod y cyd- destun o gamdriniaeth neu gamfanteisio. | • Mae'r plentyn / unigolyn ifanc yn profi camfanteisio troseddol<br>• Mae'r plentyn / unigolyn ifanc yn profi camfanteisio rhywiol. |
| **Treulio amser neu gymdeithasu gyda 'phobl hŷn'**<br><br>Mae hyn yn awgrymu bod y plant neu'r bobl ifanc yn gyfrifol am y camfanteisio a'u bod yn gallu gwneud dewis rhydd a gwybodus. Nid yw'n cydnabod y cyd-destun o gamdriniaeth neu gamfanteisio. | • Mae'r bobl ifanc yn dweud eu bod yn ffrindiau gyda rhywun neu grŵp o bobl ac mae pryderon am oedrannau'r bobl hynny, yr anghydbwysedd o ran pŵer, camfanteisio neu droseddu.<br>• Mae'r cyflawnwr wedi meithrin perthynas amhriodol, rheoli a / neu gamfanteisio ar y bobl ifanc<br><br>Sylwer: Os yw'r unigolyn 'hŷn' hefyd yn iau nag 18 oed, bydd yn rhaid defnyddio iaith sy'n ystyriol o ddiamddiffynnedd / camfanteisio a bydd yn rhaid rhoi ymateb / prosesau amddiffyn plant ar waith hefyd. |

| Ymatebion i Niweidio Plant / Pobl Ifanc yn Unigol | |
|---|---|
| **Ymatebion wedi'u geirio'n wael** | **Pobl Ifanc yn Unigol** |
| **Cynnig cyffuriau iddi hi / iddo ef yn gyfnewid am ryw neu fasnachu cyffuriau.**<br><br>Mae hyn yn awgrymu bod y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn gyfrifol am y camfanteisio a'u bod yn gallu gwneud dewis rhydd a gwybodus. Nid yw'n cydnabod y cyd- destun o gamdriniaeth neu gamfanteisio. | • Mae'r plentyn / unigolyn ifanc yn profi camfanteisio rhywiol/troseddol.<br>• Mae'r plentyn / unigolyn ifanc yn profi camfanteisio troseddol drwy ddyled cyffuriau.<br>• Mae pryderon bod y plentyn / unigolyn ifanc wedi cael eu treisio gan nad oes ganddynt y rhyddid na'r gallu i gydsynio.<br>• Mae cyflawnwyr yn cam-drin y plentyn / unigolyn ifanc yn rhywiol.<br>• Mae'r plentyn / unigolyn ifanc yn cael eu cam-drin yn rhywiol.<br>• Mae eraill yn defnyddio diamddiffynnedd y plentyn / unigolyn ifanc mewn perthynas â defnyddio cyffuriau i'w cam-drin nhw.<br>• Mae'r cyflawnwyr yn defnyddio dibyniaeth y plentyn / unigolyn ifanc ar gyffuriau i'w rheoli. |
| **Ymdriniaeth a Chysylltiad â Gang**<br><br>Mae hyn yn awgrymu bod y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn gyfrifol am y camfanteisio a'u bod yn gallu gwneud dewis rhydd a gwybodus. Nid yw'n cydnabod y cyd- destun o gamdriniaeth neu gamfanteisio na'r broses o feithrin perthynas amhriodol bwerus. | • Mae'r plentyn / unigolyn ifanc yn profi camfanteisio rhywiol / troseddol.<br>• Mae trais a throsedd wedi cael effaith ar blentyn / unigolyn ifanc, teulu neu aelwyd.<br>• Mae'n bosibl bod ymddygiadau neu ymagweddau niweidiol sy'n annog trais a throsedd o fewn y rhwydwaith hwn.<br>• Nid yw'n glir pam bod y plentyn / unigolyn ifanc yn mynd i mewn i geir.<br>Mae pryderon bod anghydbwysedd grym a pherthynas amhriodol bwerus sy'n gorfodi neu'n cymell y plentyn i ymddwyn fel hyn.<br>• Mae pryderon mewn perthynas â dylanwadau eraill ar y plentyn / unigolyn ifanc.<br><br>Sylwer: Os yw aelodau eraill o'r rhwydwaith hefyd yn iau nag 18 oed, bydd yn rhaid defnyddio iaith sy'n ystyriol o ddiamddiffynnedd / camfanteisio a bydd yn rhaid rhoi ymateb / prosesau amddiffyn plant ar waith hefyd. |

| Ymatebion i Niweidio Plant / Pobl Ifanc yn Unigol | |
|---|---|
| **Ymatebion wedi'u geirio'n wael** | **Pobl Ifanc yn Unigol** |
| **Gang(iau) yn yr ardal/lleoliad**<br><br>Mae hyn yn awgrymu bod y plentyn neu'r unigolyn ifanc yn gyfrifol am y camfanteisio a'u bod yn gallu gwneud dewis rhydd a gwybodus. Nid yw'n cydnabod y cyd- destun o gam-driniaeth neu gamfanteisio na'r hawl i fod yn y lleoliad heb brofi niwed. | • Mae achosion o drais ieuenctid difrifol yn cael effaith ar yr ardal<br>• Mae grwpiau o bobl ifanc yn ymgynnull er mwyn bod yn ddiogel<br>• Mae'n bosibl bod ymddygiadau neu ymagweddau niweidiol sy'n annog trais a throsedd o fewn yr ardal / cymuned / cymdogaeth dan sylw.<br>• Mae'n bosibl nad yw'r ardal / cymuned neu gymdogaeth yn ddiogel ar gyfer y plentyn / unigolyn ifanc neu'r grŵp o blant dan sylw.<br>• Ymddengys nad oes llawer o gyfleoedd diogel i bobl ifanc neu oedolion fynd i'r afael ag ymddygiadau neu ymagweddau niweidiol sy'n annog trais a throsedd o fewn yr ardal / cymuned / cymdogaeth dan sylw.<br>• Mae'r gymuned hon angen cefnogaeth i fynd i'r afael â phryderon neu ymagweddau mewn perthynas â thrais a throsedd yn yr ardal / cymuned / cymdogaeth dan sylw.<br>• Yn sgil gwrthdaro a thensiynau rhwng y grwpiau hyn, mae'n bosibl na fydd ardaloedd neu leoliadau eraill o fewn y fwrdeistref yn ddiogel i'r plentyn neu'r grŵp hwn o blant.<br>• Gallai'r lleoliad / sefyllfa gynyddu'r cyfleoedd i gam-drin plant / oedolion diamddiffyn. |

| Ymatebion i Niweidio Plant / Pobl Ifanc yn Unigol | |
|---|---|
| **Ymatebion wedi'u geirio'n wael** | **Pobl Ifanc yn Unigol** |
| **Er gwaethaf y risg, mae ef/hi'n parhau i ddychwelyd i'r lleoliad...**<br><br>Mae hyn yn awgrymu bod y plentyn neu'r bobl ifanc yn gyfrifol am unrhyw gamfanteisio a brofir mewn lleoliad. Nid yw'n cydnabod cyd-destun o gamdriniaeth neu gamfanteisio na'r hawl i fod yn y lleoliad heb brofi niwed. | • Mae gan y plant / pobl ifanc rwydwaith ffrindiau presennol yn y lleoliad hwn.<br>• Mae gan y plant / pobl ifanc berchnogaeth neu fuddsoddiad yn yr ardal.<br>• Mae'r plant / pobl ifanc yn teimlo eu bod yn ddiogel yn yr ardal / cymuned / cymdogaeth dan sylw.<br>• Nid oedd y plant / pobl ifanc yn ystyried eu bod yn ddiogel yn lle roeddynt.<br>• Mae'r plant / pobl ifanc wedi cael eu gorfodi neu eu hannog i fod yn y gymdogaeth / lleoliad dan sylw.<br>• Nid yw'r plant / pobl ifanc yn teimlo bod rhywle arall diogel iddynt fynd.<br>• Gallai'r lleoliad / sefyllfa gynyddu'r cyfle i gam-drin plant / pobl ifanc.<br>• Mae'r plant / pobl ifanc yn teimlo eu bod dan fygythiad / yn cael eu gorfodi i aros yn y lleoliad.<br>• Nid yw'r plant / pobl ifanc yn teimlo'n<br>• ddigon diogel i adael y lleoliad. |